**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/GT/0954/13

David Melding AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion
Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

2 Hydref 2013

Annwyl David,

Diolch am gyfarfod â mi ar 30 Medi i drafod adroddiad eich Pwyllgor ar ei waith craffu Cyfnod 1 ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Fe siaradon ni am Argymhellion 8 a 13 ac fe ofynnais i chi egluro'r sail resymegol drostynt. Roeddwn i am ysgrifennu atoch i amlinellu fy marn am yr Argymhellion hyn.

Argymhelliad 8 – *Rydym yn argymell y dylai'r Dirprwy Weinidog gyflwyno diwygiad i'r Bil a fydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddefnyddio'r weithdrefn Gadarnhaol yn y lle cyntaf wrth lunio Rheoliadau o dan Adrannau 92 a 93, ac yna'r weithdrefn Negyddol i ddilyn.*

Rwy'n cofio trafod hyn yn ystod fy sesiwn dystiolaeth gyda chi. Fodd bynnag, yr hyn a drafodwyd yn bennaf oedd a ddylid rhoi manylion y Rheoliadau o dan yr adrannau hyn ar wyneb y Bil, a chynnwys llai am y weithdrefn ar gyfer y Rheoliadau hyn. Yn syml, y cyfan y mae'r pwerau hyn yn ei wneud yw ailddatgan y pwerau yn Neddf Plant 1989, ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn Negyddol ar hyn o bryd. Yn ein cyfarfod, fe ddywedoch chi fod eich Pwyllgor yn awyddus i'r weithdrefn Gadarnhaol gael ei defnyddio'n fwy eang ond, yn hyn o beth, ni welaf unrhyw reswm dros wyro oddi wrth y trefniadau sydd eisoes ar waith ac yn gweithio'n dda.

Argymhelliad 13 – *Rydym yn argymell y dylai'r Dirprwy Weinidog gyflwyno diwygiad a fydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddefnyddio'r weithdrefn Gadarnhaol mewn perthynas ag Adran 144 o'r Bil.*

Mae'n ymddangos bod yr argymhelliad hwn wedi codi o ganlyniad i gamddealltwriaeth mewn perthynas â'r gweithdrefnau ar gyfer y pwerau o dan adrannau 143 a 144, a all fod wedi bod yn seiliedig ar wall argraffu yn y Memorandwm Esboniadol a nododd fod y pwerau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn Gadarnhaol. Wrth gwrs, bydd y gwall hwn yn cael ei gywiro ar ôl trafodion Cyfnod 2.

Yn wir, mae adran 143 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn Negyddol. Oherwydd natur adran 144, sy'n cynnwys pŵer i lunio Rheoliadau yn adran 25 o Ddeddf Plant 2004, nid oes unrhyw weithdrefn yn berthnasol i'r pŵer hwnnw ar hyn o bryd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Yn ogystal, yn ystod fy sesiwn dystiolaeth gyda chi, credaf i Suzy Davies AC gamddeall fy mwriadau mewn perthynas ag adran 144. Credaf na ddylai'r weithdrefn Gadarnhaol fod yn berthnasol yn hyn o beth. Ceisiais egluro'r pwynt hwn yn y Pwyllgor, ond nid yw hyn wedi'i adlewyrchu yn eich adroddiad nac yn eich argymhellion.

O ran adran 147, gwnaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol argymhellion ar gyfer cryfhau trefniadau partneriaeth ac rwyf o blaid cyflwyno diwygiadau i'r diben hwn.

I gloi, hoffwn ychwanegu fy mod yn ddiolchgar i chi am fynegi eich barn yn y cyfarfod, fy mod wedi cyflawni llawer tuag at fodloni argymhellion eich Pwyllgor a fy mod yn edrych ymlaen at drafod y materion hyn ymhellach ar 8 Hydref.

Yn gywir



**Gwenda Thomas AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services